Canllaw cyflym i staff gorsaf bleidleisio

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ynghyd â *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio'r Comisiwn*. Mae cyfeiriadau i dudalennau yn y canllaw hwn yn dangos lle mae mwy o wybodaeth i'w gael yn y llawlyfr.

Pwy all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio?

t 13

Mae llythrennau nesaf at gofnod etholwr ar y gofrestr yn dangos p'un a bod hawl ganddynt bleidleisio yn yr etholiad ai peidio. Dim ond yr etholwyr canlynol all dderbyn papur pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dim llythrennau	Etholwyr arferol
Dim llythrennau + **N**	Etholwyr wedi'u cofrestru'n ddienw
Dyddiad ar neu cyn y diwrnod pleidleisio	Etholwyr fydd yn 18 oed ar neu cyn y diwrnod pleidleisio (heblaw bod ganddynt hefyd A, E, neu F wrth ymyl eu henw)
G or **G+N**	Rhai dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE
K or **K+N**	Rhai dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE
L or **L+N**	Arglwyddi

Pwy na all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio?

t 14

Ni ddylid rhoi papur pleidleisio i'r etholwyr canlynol yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dyddiad ar ôl y diwrnod pleidleisio	Etholwyr na fydd yn 18 oed nes ar ôl y diwrnod pleidleisio
A or **A+N**	Pleidleiswyr post
E or **E+N**	Arglwyddi tramor
F or **F+N**	Etholwyr tramor

Beth yw'r broses bleidleisio arferol?

tt 13–16

Cam 1 - Dilysu'r pleidleisiwr	Cyfarch yr etholwr a gofyn iddyn nhw nodi eu henw a'u cyfeiriad.
	Cadarnhau eu bod yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad drwy wirio eu cofnod ar y gofrestr.
	Tynnwch linell yn erbyn (ond nid trwy) gofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr.
	Darllenwch eu henw a'u rhif etholwr (sy'n cynnwys cofnod y dosbarth pleidleisio) o'r gofrestr.
Cam 2 - rhoi'r papur pleidleisio	Rhowch rif yr etholwr ar y rhestr rhifau cyfatebol wrth ymyl y rhif papur pleidleisio perthnasol.
	Sicrhewch fod gan y papur pleidleisio sydd i'w roi'r marc swyddogol.
	Plygwch y papur pleidleisio a'i roi i'r pleidleisiwr heb ei blygu. Gofynnwch iddo ei blygu eto unwaith iddynt farcio eu papur pleidleisio yn y bwth pleidleisio.
Cam 3 - pleidleisio	Mae'r pleidleisiwr yn marcio'r papur pleidleisio yn gyfrinachol yn y bwth pleidleisio.
	Gofynnwch i'r pleidleisiwr i ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio cyn iddynt ei roi yn y blwch pleidleisio.

Beth os...

Nad yw deiliad yr allwedd wedi cyrraedd? t 6

TCeisiwch gysylltu gyda deiliad yr allwedd. Os oes angen, gwnewch drefniadau amgen, e.e. gosodwch orsaf bleidleisio dros dro yng nghefn y car. Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau. Mae'n rhaid i bleidleisio gychwyn am 7am.

Yw etholwr yn dinistrio eu papur pleidleisio? t 15

Canslwch y papur pleidleisio wedi'i ddinistrio. Rhowch ef yn yr amlen briodol, rhowch 'wedi canslo' ar y rhestr rhifau cyfatebol a rhowch bapur pleidleisio arall i'r pleidleisiwr.

Nad yw etholwr yn gallu cael mynediad i'r orsaf bleidleisio? t 20

Ewch a'r papur pleidleisio allan i'r etholwr ar ôl rhoi gwybod i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol. Sicrhewch ddiogelwch y bleidlais drwy'r amser.

Oes angen cymorth ar etholwr anabl? tt 20–22
Cynigwch gymorth. Esboniwch pa gymorth sydd ar gael.

Yw'r person sy'n gofyn am bapur pleidleisio yn ymddangos ar y gofrestr fel ei fod wedi pleidleisio eisoes? tt 30–34
Gwiriwch os ydynt wedi penodi dirprwy. Os na, dilynwch y broses papur pleidleisio wedi tendro. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn rhoi papur pleidleisio wedi tendro. Peidiwch â rhoi papur pleidleisio wedi tendro os nad atebwyd y cwestiynau mewn modd boddhaol.

Yw etholwr gyda marciwr 'A' ar y gofrestr yn dweud nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post? tt 25–26
Peidiwch â rhoi papur pleidleisio arferol. **Os ydynt wedi derbyn eu pleidlais bost:** anogwch nhw i'w ddychwelyd i'r orsaf bleidleisio neu'r swyddfa etholiadol erbyn 10pm. Os nad ydynt am ei ddychwelyd, dilynwch y weithdrefn papur pleidleisio wedi tendro. **Os nad ydynt wedi derbyn eu pleidlais bost:** os yw cyn 5pm, cyfeiriwch nhw at y swyddfa etholiadol i gael un yn ei le; os yw ar ôl 5pm, neu os nad ydynt am gael un yn ei le, dilynwch y weithdrefn papur pleidleisio wedi tendro. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn rhoi papur pleidleisio wedi tendro. Peidiwch â rhoi papur pleidleisio wedi tendro os nad atebwyd y cwestiynnau mewn modd boddhaol.

Yw etholwyr yn honni colli neu heb dderbyn eu pleidlais bost? t 26
Cyn 5pm: cyfeiriwch nhw at y swyddfa etholiadau i gael un yn ei le.
Ar ôl 5pm: dilynwch y weithdrefn papur pleidleisio wedi tendro. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn rhoi papur pleidleisio wedi tendro. Peidiwch â rhoi papur pleidleisio wedi tendro os nad atebwyd y cwestiynnau mewn modd boddhaol.

Yw etholwr yn gofyn sut i gwblhau eu papur pleidleisio? t 15
Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y papur pleidleisio allan ac enwau'r ymgeiswyr fel y maent yn ymddangos y papur pleidleisio.

Nad yw person ar un o'r cofrestrau na'r hysbysiadau? tt 23–24
Peidiwch â rhoi papur pleidleisio. Cyfeiriwch y pleidleisiwr at y swyddfa etholiadol

Yw etholwr yn rhoi cerdyn pleidleisio i chi heb enw na chyfeiriad? t 29
Rhoddir cardiau pleidleisio fel hyn i etholwyr a gofrestrir yn ddienw. Peidiwch â gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr. Dilynwch y weithdrefn ar gyfer rhoi papur pleidleisio i etholwr dienw.

Yw etholwr am ddychwelyd eu pleidlais bost i'r orsaf bleidleisio? t 25

Gwiriwch y gellir dychwelyd y bleidlais bost i'r orsaf bleidleisio. Os gall, rhowch ef yn y pecyn a ddarperir. Os na, neu os ydych yn ansicr, cyfeiriwch y pleidleisiwr at y swyddfa etholiadau.

Yw person yn gofyn i bleidleisio ar ran rhywun sydd wedi cael argyfwng meddygol? t 28

Rhowch bapur pleidleisio iddynt os ydynt wedi'u penodi'n ddirprwy mewn argyfwng yn unig. Os na, esboniwch y gellir penodi dirprwyon mewn argyfwng hyd nes 5pm, a chyfeiriwch nhw at y swyddfa etholiadol i gael mwy o wybodaeth am y broses hon.

Ydych chi, neu rywun arall, yn amau bod y person sy'n gofyn am y papur pleidleisio ddim pwy maen nhw'n honni ydyn nhw? t 38

Dim ond cyn rhoi papur pleidleisio y gall y Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig. Mae gan asiantiaid hawl i ofyn bod y Swyddogion Llywyddu yn gofyn y cwestiynau hyn. Os oedd eu hatebion yn foddhaol, dylid rhoi papur pleidleisio arferol. Ni ddylid gwneud ymholiadau pellach o ran hawl rhywun i bapur pleidleisio.

Oes digwyddiad argyfyngus (e.e. tân, llifogydd ac ati)? tt 36–37

Peidiwch â rhoi gosod diogelwch unrhyw un mewn perygl. Os yw'n ddiogel gwneud, gosodwch orsaf bleidleisio yn gyfagos. Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau.

Manylion cyswllt

Os ydych yn ansicr o unrhyw rai o'r gweithdrefnau yn y llawlyfr, neu fod angen i chi gysylltu â'r swyddfa etholiadau am unrhyw reswm arall, cysylltwch â: